# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Gorfodi*

## 15 Gwarant i fynd i fangreoedd eraill E+W

(1) Caiff ynad heddwch arfer y pŵer yn is-adran (2) mewn perthynas â mangre yng Nghymru ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni yn ardal awdurdod lleol,

(b) ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni, ac

(c) bod gofyniad a nodir yn is-adran (3) neu (4) wedi ei fodloni.

(2) Caiff yr ynad ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi swyddog awdurdodedig i fynd i'r fangre, drwy rym oes oes angen.

(3) Y gofyniad yw—

(a) bod gofyn am fynd i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a

(b) bod hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan yr adran hon wedi ei roi i'r meddiannydd neu i berson yr ymddengys yn rhesymol i'r awdurdod lleol ei fod yn ymwneud â rheoli'r fangre.

(4) Y gofyniad yw bod gofyn am fynd i'r fangre, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan yr adran hon, yn debygol o danseilio diben y mynediad.

(5) Mae'r warant yn parhau mewn grym tan ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 15 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 15.